Cymhwysedd Hyblyg Cyngor Sir y Fflint
Datganiad o Fwriad

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y rhaglen ECO: Cymorth Cynhesu 2018-2022. Ei nod yw helpu aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd, yn byw ar incwm isel ac sy'n ddiamddiffyn i effeithiau cartref oer. Dim ond ar gyfer perchen-feddianwyr preifat a thenantiaid sy'n rhentu'n breifat y mae'r cyllid hwn ar gael.

1) Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn croesawu cyflwyniad Cymhwysedd Hyblyg (CH) ac yn bwriadu ei ddefnyddio er dibenion lleihau tlodi tanwydd yn y sir.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ers sawl blwyddyn i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd trwy brosiectau mewn ardaloedd penodol a rhaglen gymorth ledled y sir, ynghyd â'r cynllun Cronfa Cartrefi Clyd, y rhaglen Cartrefi Iach, Pobl Iach a gwaith parhaus y Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig.

Sylwch mai'r cyflenwyr ynni rhwymedig neu eu cynrychiolwyr/contractwyr fydd yn penderfynu'n derfynol a fydd aelwyd yn derbyn mesur ECO ai peidio. **Ni fydd** bod yn gymwys yn y Datganiad o Fwriad nac mewn Datganiad a wneir gan Gyngor Sir y Fflint i gyflenwr yn sicrhau y bydd mesurau'n cael eu gosod, gan y bydd y penderfyniad terfynol yn dibynnu ar i) arolwg a gynhelir gan gynrychiolwyr/contractwyr y cyflenwyr a'r costau gosod a gyfrifir, ii) yr arbedion ynni y gellir eu cyflawni ar gyfer eiddo, a iii) p'un ai yw'r cyflenwyr wedi cyrraedd eu targedau neu angen mesurau pellach i gyrraedd eu targedau ECO.

Trwy adnabod aelwydydd cymwys, mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio galluogi trigolion i elwa ar gyllid, a bydd yn ceisio caniatâd aelwydydd i'w cynnwys mewn Datganiad. Mae Cyngor Sir y Fflint yn disgwyl i unrhyw gyflenwr ynni rhwymedig, neu gontractwr sy'n gweithio ar eu rhan, gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, dilyn gofynion Ofgem ar gyfer rhaglen Cymorth Cynhesu y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) yn llawn, a gweithredu yn unol ag arferion gorau'r diwydiant mewn perthynas â gofal cwsmeriaid a safonau ansawdd unrhyw waith a wneir. Ymdrinnir â hyn mewn memorandwm o ddealltwriaeth ar wahân rhwng y Cyngor a'r cwmni rhwymedig.

2) Sut mae'r ALI yn bwriadu adnabod aelwydydd cymwys

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gosod paramedrau ar gyfer adnabod aelwyd allai elwa o'r mesurau a osodir dan Gymhwysedd Hyblyg fel naill ai unigolion sy'n byw mewn tlodi tanwydd (TT) neu unigolion sy'n byw ar incwm isel ac yn ddiamddiffyn i effeithiau byw mewn cartref oer (IIDO). Hefyd, amlinellir manylion am sut rydym ni'n nodi bod eiddo â waliau solet yn gymwys ar gyfer inswleiddiad dan y categori "mewnlenwi".

Yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael o fewn y Cyngor a'r defnydd cyfreithlon o ddata, bydd y Cyngor yn targedu unigolion sydd â'r angen mwyaf o ystyried canllawiau BEIS ar dargedu, gan gynnwys:

i. Unigolion sy'n byw yn y sector preifat ac yn derbyn y budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd ac/neu ar incwm isel

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement

ii. Byddwn yn croesgyfeirio data ar incwm gyda data sydd gennym neu y gallwn gael gafael arno ar Dystysgrifau Perfformiad Ynni, mesuryddion rhagdalu, gwariant ar danwydd, math/oed/cyflwr y tŷ, dull gwresogi

iii. Bydd aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn tai nad ydynt yn effeithlon o ran ynni yn cael eu hadnabod yn y sector rhentu preifat drwy weithgarwch gorfodi dan Ddeddf Tai 2004.

Dyma'r meini prawf a ddefnyddir:

(a) Meini prawf ar gyfer adnabod aelwydydd mewn tlodi tanwydd:

(a1) 10% o Incwm yn mynd ar Gostau Tanwydd

Diffinnir aelwyd fel bod mewn tlodi tanwydd os yw dros 10% o gyfanswm incwm y cartref (ar ôl taliadau morgais/rhent a threth y cyngor) yn cael ei wario ar gostau tanwydd.

neu

(a2) Incwm Isel Cost Uchel

Er mwyn nodi bod aelwyd mewn tlodi tanwydd, mae Cyngor Sir y Fflint yn mabwysiadu'r dull canlynol ac mae gofyn i'r aelwyd fodloni'r canlynol:

(1) Cyrraedd y trothwy aelwyd incwm isel; a

(2) Penderfynu bod yr aelwyd yn wynebu costau ynni uchel.

Adnabod aelwydydd incwm isel

Gan gyfeirio at y dangosyddion Incwm Isel Cost Uchel yn Nhabl 1, a defnyddio cyfansoddiad yr aelwyd yng ngholofn **(i)**, byddwn yn nodi bod aelwydydd sydd ag incwm dros ben (ar ôl talu rhent neu forgais, lle bo hynny'n gymwys) o lai na'r ffigwr yng ngholofn **(iii)** y mis, yn aelwydydd "incwm isel".

Tabl 1 – Trothwyon incwm sy'n fras yn gyson â'r rheiny a ddefnyddiwyd ar gyfer dangosydd Incwm Isel Cost Uchel (2014), wedi'u chwyddo i gynrychioli prisiau 2017/18

Cyfansoddiad yr aelwyd (i)	Incwm blynyddol yr aelwyd (ii)	Incwm misol cyfwerth yr aelwyd (iii)
1 oedolyn (dros 18 oed)	£8,900	£740
ac 1 plentyn	£11,700	£980
a 2 o blant	£14,400	£1,200
a 3 o blant	£17,300	£1,440
a 4 neu fwy o blant	£20,100	£1,680
2 oedolyn (dros 18 oed)	£14,600	£1,220
ac 1 plentyn	£17,400	£1,450
a 2 o blant	£20,200	£1,680
a 3 o blant	£23,100	£1,930
a 4 neu fwy o blant	£25,700	£2,140

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement

Gan ddefnyddio'r ymatebion i'r set ganlynol o gwestiynau, gellir pennu lefel trothwy incwm aelwyd:

Cwestiwn 1: Faint o bobl dros 18 oed sydd fel arfer yn byw yn eich eiddo, gan eich cynnwys chi eich hun?

Mae hyn yn cadarnhau nifer yr oedolion er dibenion cyfansoddiad yr aelwyd (i).

Cwestiwn 2: Faint o bobl dan 18 oed sydd fel arfer yn byw yn eich eiddo?

Mae hyn yn cadarnhau nifer y plant er dibenion cyfansoddiad yr aelwyd (i).

Cwestiwn 3: Ar ôl talu'r rhent neu'r morgais (os oes gennych chi un), faint o incwm sydd gan eich aelwyd ar ôl fel arfer bob mis?

a) Mwy na (e.e. swm y trothwy o Dabl 1 o ystyried nifer yr oedolion a'r plant a nodir dan gwestiynau 1 a 2); neu

b) Llai na (e.e. swm y trothwy o Dabl 1 o ystyried nifer yr oedolion a'r plant a nodir dan gwestiynau 1 a 2).

Mae hyn yn cadarnhau a yw incwm yr aelwyd, ar ôl costau tai, yn uwch neu'n is na'r trothwy incwm isel. Os mai'r ateb i Gwestiwn 3 yw (b), dylid eu hystyried fel aelwyd incwm isel.

Enghraifft: Mae gan aelwyd 2 o oedolion dros 18 oed a 3 o blant dan 18 oed. Gan ddefnyddio Tabl 1 fel enghraifft, y trothwy priodol yw £21,600 y flwyddyn (neu £1,800 y mis). Mae eu hateb i Gwestiwn 3 yn datgelu bod ganddyn nhw lai na £1,930 y mis ar ôl wedi iddyn nhw dalu eu rhent neu forgais (os oes ganddyn nhw un). Yn yr enghraifft hon, gellir eu hystyried felly'n aelwyd incwm isel.

Adnabod Aelwydydd Cost Uchel

Oherwydd natur y diffiniad o dlodi tanwydd a ddefnyddir, mae casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â chostau ynni mewn eiddo penodol a'i chyfuno â gwybodaeth am incwm yr aelwyd honno yn fwy effeithiol ar gyfer targedu'r unigolion tlawd o ran tanwydd na defnyddio gwybodaeth am incwm yn unig.

Rydym wedi ystyried nifer o ddulliau sy'n adlewyrchu rhesymau megis y data sydd ar gael ac adbrisiant mathau penodol o eiddo, ac wedi penderfynu bod y ddau ddull canlynol yn ddigon cywir a syml i'n galluogi ni i adnabod Aelwydydd Cost Uchel yn hyderus.

Dyma'r ddau ddull:

(1) Mewn eiddo safonol, defnyddio Tystysgrif Perfformiad Ynni bandiau E, F neu G i benderfynu bod aelwyd yn debygol iawn o fod â chostau ynni uchel; a

(2) Sgôr o 50 neu fwy gan ddefnyddio'r tabl isod:

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement

Tabl 2.

Cwestiwn	Ymateb	Sgôr
Faint o ystafelloedd gwely sydd yn y cartref?	1	0
	2	10
	3	35
	4	55
	5	70
	6 neu fwy	80
Ydych chi'n talu am ynni trwy Ddebyd Uniongyrchol?	Ydw	0
	Nac ydw	15
Beth yw'r ddeiliadaeth?	Rhentu'n breifat	15
	Perchen-feddiannydd	10
	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	0
	Awdurdod Lleol	0
Ydi'r cartref yn defnyddio boeler?	Ydi	0
	Nac ydi	5
A gafodd y cartref ei adeiladu cyn 1964?	Do	25
	Naddo	0
Beth yw'r prif fath o danwydd?	Nwy drwy brif gyflenwad	0
	Trydan	30
	Arall	15
Parc/Cartref Symudol	Ie	50
	Nage	0

(b) Meini prawf ar gyfer adnabod aelwydydd incwm isel a diamddiffyn i oerfel

Er mwyn adnabod aelwyd incwm isel a diamddiffyn, mae Cyngor Sir y Fflint yn mabwysiadu'r dull canlynol a rhaid i'r aelwyd fodloni'r canlynol:

(1) Cyrraedd y trothwy aelwyd incwm isel (trowch at enghraifft A uchod); a

(2) Phenderfynu bod y trigolion yn ddiamddiffyn i effeithiau byw mewn cartref oer.

Diamddiffyn i effeithiau byw mewn cartref oer

Mae canllaw NICE 'Marwolaethau a gwaeledd ychwanegol y gaeaf a'r peryglon iechyd sy'n gysylltiedig â chartrefi oer' yn nodi bod amrediad eang o bobl yn ddiamddiffyn i'r oerfel. Gall hyn fod oherwydd cyflwr meddygol megis clefyd y galon; anabledd sydd, er enghraifft, yn rhwystro pobl rhag symud o gwmpas i gadw'n gynnes neu sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o ddatblygu heintiau ar y frest; neu amgylchiadau personol, megis methu fforddio cadw'n ddigon cynnes.

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn targedu aelwydydd sy'n cynnwys pobl â'r nodweddion canlynol, sy'n adlewyrchu canllawiau Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) 2015 ar farwolaethau a gwaeledd ychwanegol y gaeaf a achosir gan gartrefi oer.

i. Dros 60 oed, a dros 75 oed yn enwedig
ii. Plant dan 5 a mamau beichiog (bydd angen prawf oedran)
iii. Clefyd anadlol (COPD, asthma)
iv. Clefyd cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemia'r galon, clefyd serebro-fasgwlaidd)
v. Salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol)
vi. Camddefnyddwyr sylweddau
vii. Dementia
viii. Clefydau niwrofiolegol (e.e. fibromyalgia, ME)
ix. Canser
x. Symudedd cyfyngedig
xi. Hemoglobinopathi (clefyd y crymangelloedd, thalasaemia)
xii. Anableddau dysgu difrifol
xiii. Clefydau awto-imiwn ac imiwnoddiffygiol (e.e. lwpws, MS, diabetes, HIIV)

Mae angen datganiad wedi'i lofnodi gan feddyg neu ymarferydd iechyd i gadarnhau unrhyw fater iechyd a restrir uchod (iii – xiii)

(c) Gofynion ar gyfer prosiectau "mewnlenwi" inswleiddio waliau solet

Ar gyfer rhai prosiectau inswleiddio waliau solet, gallai ambell i eiddo gael ei ystyried yn gymwys ar sail y dosbarthiad mewnlenwi. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod y meini prawf canlynol:

Math o Eiddo	**Gofynion**	**Mewnlenwi sydd ar gael**
Prosiect sy'n cynnwys tai neu fyngalos pâr, neu adeilad sy'n cynnwys dim mwy na dau eiddo domestig.	Rhaid i o leiaf un o'r ddau eiddo fod wedi'i ddatgan gan yr ALI yn eiddo TT neu IIDO (h.y. mae 50% o'r eiddo'n rhai TT neu IIDO).	Mae'r eiddo preifat arall sydd y drws nesaf iddo yn gymwys am inswleiddiad wal solet.
Prosiect sy'n cynnwys unrhyw eiddo sydd o fewn yr un adeilad (e.e. fflatiau), adeiladau sy'n union wrth ymyl ei gilydd (e.e. eiddo cymdogol) neu yn yr un teras.	Rhaid i o leiaf dau allan o dri eiddo ar y rhestr fod wedi'u datgan gan yr ALI yn eiddo TT neu IIDO (h.y. mae o leiaf 66% o'r eiddo'n rhai TT neu IIDO).	Mae gweddill (h.y. hyd at draean) yr eiddo preifat yn y prosiect yn gymwys am inswleiddiad wal solet, ar yr amod eu bod naill ai yn yr un adeilad, mewn adeilad sy'n union wrth ymyl neu yn yr un teras â'r rhai a nodwyd yn eiddo TT neu IIDO.

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement

d) Cartrefi wedi'u hadnabod o fod mewn ardaloedd o dlodi tanwydd llym trwy raglen Arbed Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Arbed am Byth i gyflawni rhaglen Arbed sy'n seiliedig ar ardal sydd yn mynd ati i leihau a lle mae'n bosib dileu tlodi tanwydd ar draws Cymru. Nod y rhaglen yw rhoi cyfres o fesurau, yn seiliedig ar asesiad tŷ llawn, i ddefnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer eiddo mewn ardaloedd o dlodi tanwydd llym.

Er mwyn sefydlu p'un ai fod ardal yn dioddef o dlodi tanwydd llym, mae Arbed am Byth ynghyd â'u prif is-gontractwr, Yr Ymddiriedolaeth Garbon, yn defnyddio'r meini prawf canlynol ac yn gwneud asesiad.

(nodwch – nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac nid oes angen i'r holl ddangosyddion fod yn bresennol i'r holl gynlluniau i arddangos tlodi tanwydd):

a. Anodd cynhesu (graddfeydd EFG EPC)

b. Anodd cynhesu (archdeip)

c. Statws cysylltiad nwy

d. Parth Datguddio

e. Iechyd Gwael (Cyfrifiad)

f. MALLC (meysydd incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a thai)

g. Budd-daliadau (Treth y Cyngor, Budd-dal Tai, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cefnogaeth a Chymorth a Budd-dal Analluogrwydd, Unig riant, Gofalwyr, Anabl, unrhyw fudd-daliadau eraill yn berthnasol i incwm, budd-daliadau eraill ar gyfer unigolion di-waith)

h. Prydau ysgol am ddim (% o blant cymwys / derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgol/ysgolion lleol)

i. Angen am grwpiau cefnogaeth yn lleol (h.y Dechrau'n Deg, banciau bwyd, banciau tanwydd ac ati)

j. Peryglon Categori 1 y System Mesur Iechyd A Diogelwch Ar Gyfer Tai ar gyfer bod yn rhy oer (h.y. nifer uchel o adroddiadau yn yr awdurdod lleol ar gyfer archdeipiau yn y cynllun arfaethedig)

Os yw'r asesiad yn darparu tystiolaeth o dlodi tanwydd yna bydd Arbed am Byth yn datblygu cynllun hynod fanwl sydd yn dynodi pa fesurau sydd eu hangen i dynnu'r cwsmer allan o dlodi tanwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio'r broses o safbwynt archwilio i sicrhau eu bod yn gyfforddus gyda'r buddsoddiad a ofynnwyd amdano.

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement

3) Gweithredu ar ran awdurdod lleol arall

Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu ar ran awdurdod lleol arall.

4) Cyd-ddatganiad o fwriad

Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu ar y cyd ag awdurdod lleol arall.

5) Llywodraethu

Y swyddog isod fydd yn gyfrifol am lofnodi Datganiadau ar ran Cyngor Sir y Fflint.

Enw: Joseph Muxlow

Teitl Swydd: Rheolwr Adfwyio Tai

Rhif Ffôn: 01352 703426

E-bost: joseph.muxlow@flintshire.gov.uk

6) Atgyfeiriadau

O bryd i'w gilydd, gallai atgyfeiriadau ddod o amrywiol ffynonellau nad ydynt wedi'u diffinio ar hyn o bryd.

7) Tystiolaeth, monitro ac adrodd

Bydd nifer yr aelwydydd y cysylltir â nhw ac sy'n gymwys am gymorth Cymhwysedd Hyblyg ECO, ynghyd â nifer y mesurau a ariennir gan Gymhwysedd Hyblyg ECO sy'n cael eu gosod, a nifer y cartrefi a gaiff eu gwella, yn cael eu cofnodi gan Gyngor Sir y Fflint.

8) Llofnod

Llofnodwyd gan:

Dyddiad: 13.2.20

Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint

Document Control	
Version	V 5.0
Date of publication	13/02/2020
Publication on website	http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Energy-Saving/Energy-Company-Obligation-Statement